Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg - Grantiau i Hyrwyddo Addysg Gymraeg

Beth yw Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg?

Elusen Cofrestredig yw Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg sydd yn helpu trwy roi grantiau i ysgolion, cylchoedd meithrin, mudiadau unigol ac ati er mwyn hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg.

Ein nod yw gwneud gwahaniaeth ac i hybu addysg Gymraeg neu wella'r profiad i blant a phobl ifanc sydd yn derbyn addysg Gymraeg.

Pwy all wneud cais?

- **Ysgolion**
- **Cylchoedd Meithrin / Ti a Fi**
- **Mudiadau unigol**

Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch i holi.

Beth yw swm y grant sydd ar gael?

Rydym yn dyfarnu symiau sydd yn amrywio o gyn lleied â £75 hyd at £1,000 ac weithiau mwy na hynny.

Pa fath o brosiectau mae'r grant yn ariannu?

- **Baneri a thaflenni marchnata**
- **Hysbysebion**
- **Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth o werth addysg Gymraeg**
- **Offer neu adnoddau newydd**

**Yn anffodus nid yw'r Gronfa yn gallu darparu grantiau tuag at gostau rhedeg parhaus unrhyw sefydliad, megis costau rhent, staffio ac yn y blaen.*

Sut i wneud cais?

Gwahoddir ceisiadau ar ffurf llythyr neu, gorau oll, e-bost. Anfonwch eich cais at:

Wyn Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Cronfa Glyndŵr, Llys y Coed, Heol Pantygored, Pentyrch, Caerdydd, CF15 9NE

llysycoed@btinternet.com

Cliciwch yma am fwy o fanylion.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan www.cronfaglyndwr.cymru

Rhif Elusen Gofrestredig : 525762